# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mai 2017

Amser: 14.30 - 15.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4096

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Syr Derek Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 448KB) Gweld fel HTML

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i sicrhau llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 9

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Derek Jones, Cyn-ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)100 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)090 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r pwyntiau adrodd.
Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymateb i'r pwyntiau adrodd.
Cytunodd y Pwyllgor i drafod ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod nesaf.

### 4.2 SL(5)102 – Rheoliadau Asesu’r Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) (Diwygio) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r adroddiad drafft.
Nododd y Pwyllgor fod yr ohebiaeth arfaethedig at y pwyllgor yn San Steffan ynghylch is-ddeddfwriaeth ddwyieithog wedi cael ei gohirio tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol.

## 5 Papur i’w nodi

### 5.1 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Blaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ddiwygiedig a chytunodd arni.